

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 1af 2016 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands (Cadeirydd), Gethin Morris, Alwyn Jones, Dewi Pritchard, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tina Davies, Gwenda Evans, Alwyn Roberts, Gwenda Evans, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Nodwyd buddiant y cyngorwyr gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Torri coed ym mynwent Llandderfel

Cafwyd adroddiad bod y contractwr wedi cychwyn y gwaith ac yn gobeithio ei gwblhau cyn diwedd y mis.

Biniau Halen.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â bwriad Cyngor Gwynedd i godi am ail lenwi'r biniau halen. Cytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn a'r cyngorau cymuned a thref ym Mhenllyn i gefnogi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.

Ymateb i'r cwynion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

Ffordd mynwent Llandderfel.

Roedd y cler wedi trafod gyda pherchennog y ffordd ac roedd yn hapus i gydweithio gyda'r Cyngor i wella ei chyflwr. Ers y cyfarfod diwethaf roedd Scottish Power wedi bod yn defnyddio'r ffordd i gael mynedfa i wneud gwaith cynnal a chadw ac roedd dipyn o ddifrod i'r ffordd. Gofynnwyd i Maldwyn Jones ymgynghori a'r trefeddiannwr gerllaw i weld os oedd Scottish Power yn bwriadu trwsio'r difrod. Cytunodd y cler i dynnu lluniau o'r difrod rhag ofn byddai angen tystiolaeth ond gan fod y teuluoedd angen mynediad i'r fynwent cytunodd Dewi Pritchard i dacluso'r ffordd dros dro.

Llwybr 'Stryd Pont Faen'.

Cafwyd cadarnhad gan adran llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd bod y llwybr angen sylw. Byddant yn asesu'r llwybr ac yn gwneud unrhyw welliannau pan fyddai eu hadnoddau yn caniatáu.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

- i) Cyfarfod Her Gwynedd – Atgoffwyd y cyngorwyr am y cyfarfod yn Neuadd Buddug ar y 14/3/16 rhwng Cyngorau Chymuned a Thref a Chyngor Gwynedd i drafod yr her ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu.
- ii) Cofrestr Newidiadau a Ffocws i'r Cynllun Adnau - derbyniwyd llythyr yn ein cynghori bod y Cyngor wedi trafod y sylwadau a dderbyniwyd am y cynllun a bod y gofrestr 'Newidiadau a Ffocws' bellach ar gael i'r cyhoedd i wneud sylwadau pellach.

a) Amrywiol

- i) Un Llais Cymru - Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
- ii) Ombwdsmon - Cafwyd llythyr yn ein cynghori bod rhifyn newydd 'Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda' ar gael ar eu gwefan. Cytunodd y clerc ddarllen yr adroddiad ac adrodd yn nol yn y cyfarfod nesaf.
- iii) Panel Annibynnol Cymru - Cafwyd cadarnhad bod 'Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol' wedi cael ei gyhoeddi.
- iv) Ras yr Iaith – Derbyniwyd gwybodaeth am y digwyddiadau yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r clerc anfon yn nol i ddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r digwyddiadau.
- v) Cyngor Tref Porthmadog - Derbyniwyd cais i hyrwyddo'r cyfarfod cyhoeddus ar y 20/2/16 i drafod bwriad penaethiaid Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau swyddfa treth incwm yn Nhŷ Moelwyn Porthmadog. Cytunwyd yn unfrydol i ysgrifennu i wrthwynebu'r cynllun i gau'r swyddfa dreth gan ei fod yn wasanaeth gwerthfawr drwy gyfrwng y Gymraeg i drigolion yr ardal.
- vi) Chanllawiau Trethi Cyngor Gwynedd - derbyniwyd gwybodaeth am y trafferthion roedd un o drigolion y Sarnau yn ei gael gyda'r adran trethi. Cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ddatgan anfofllonrwydd y Cyngor Cymuned ar sut yr oedden wedi delio gyda'r achos
- vii) Heddlu Gogledd Cymru - derbyniwyd llythyr gan Rhingyll tîm Plismona Cymdogaeth De Gwynedd, Iwan Lloyd Jones yn egluro eu bod yn awyddus iawn i sicrhau cydweithio effeithiol gyda'r Cyngorau Cymuned. Derbyniwyd manylion cyswllt y swyddogion lleol ac anogodd y rhingyll i ni gysylltu â'r swyddogion unrhyw bryd oedd angen.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C16/0062/04/LL – Cais ol weithredol i gadw gwaith peiriannyddol ar gyfer creu pwll i adar dwr. Lluest Wen, Glanrafon.

C16/0153/04/DA – Diwygiad ansylweddol i ganiatad cynllunio C04M/0038/04/LL i ddiwygio geiriad amod 5 er mwyn cyflwyno cynllun adfer ac ol ofal er cymeradwyaeth 12 mis cyn dadgomisiynnau'r safle. Braich Ddu, Glanrafon.

Materion Ariannol.

Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y clerc (Ion i Fawrth)

CTHEM (TWE)

Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwenydydd Frongoch a Llanfor)

Costau llogi Neuadd Llandderfel

Costau llogi Neuadd Mynach

Costau llogi Ffestri Glanrafon

Costau llogi Neuadd Sarnau

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Neuadd Sarnau - £350

Neuadd Mynach - £350

Neuadd Llandderfel - £350 (Maldwyn Jones yn datgan diddordeb)

Ysgol Bro Tryweryn - £200

Ysgol Ffridd y Llyn - £200

Ysgol Feithrin Sarnau a Llandderfel - £50

CFFI Meirionnydd - £100

Urdd Gobaith Cymru - Cylch Penllyn - £50

Cantref - £50 (Eilir Rowlands yn datgan buddiant)

Sioe CFFI Cwmtirmynach - £50

Hosbis Tŷ'r Eos - £100

Ambiwylans Awyr Cymru -£100

Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £50

Ysgol Y Berwyn - £50.00

Pwyllgor Coffau Canmlwyddiant: Fron-goch, 1916-2016 - £200 (Alwyn Jones yn datgan buddiant)

Cyngor ar Bopeth - £50

Unrhyw Fater Arall.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i sylw Cyngor Gwynedd:-

- a) Roedd llawer o sbwriel i'w weld ar hyd ochr y ffyrdd ym Methel - yn enwedig yn yr encilfa ger llaw.
- b) Roedd y bin sbwriel cyhoeddus ym mhentref Sarnau yn gorlifo yn aml a gofynnwyd a oedd posib i'w wagu'n amlach.
- c) Ffordd Coed Foel Uchaf i Tair Felin, Frongoch – roedd dwr yn hel ar y ffordd gan fod y cylfat gerllaw wedi tagu.
- ch) Dwr yn hel ar gornel Gorseddau, Cwmtirmynach – problem a oedd wedi bodoli ers blynyddoedd ond roedd wedi dod yn fwy amlwg oherwydd yr holl law yn ddiweddar.
- d) Roedd cerrig wedi dod i lawr o'r wal o flaen y lloches bws yng Nghefnddwysarn.
- dd) B4401, Llandderfel i Landrillo, gofynnwyd a oedd posib gosod rhwystru gwrthdaro ger Crogen gan fod y ffordd yn gul iawn ac roedd perig i gerbydau droi i ffwrdd o'r ffordd ac i lawr y ochr.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i sylw Adran Cefnffyrdd:-

- a) A494 yng Nglanrafon - roedd y cynghorwyr yn bryderus iawn am ddiolgelwch gyrrwyr a oedd yn defnyddio'r ffordd oherwydd y nifer o ddamweiniau angheuol oedd wedi bod dros y blynyddoedd. Cytunwyd i gysylltu â'r Adran Cefnffyrdd i weld os oedd ganddynt gynlluniau i ddiogelu'r ffordd.
- b) A494 - Gors y Sarnau - adroddodd y cynghorwyr bod damwain arall wedi bod ger mynedfa pentref Sarnau ac roedd y gyrrwyr wedi bod yn lwcus i beidio taro'r lloches bws. Unwaith eto gofynnwyd i'r clerc basio pryderon y Cyngor ymlaen i'r Adran Cefnffyrdd ac i bwysu arnynt i gwblhau'r gwaith o osod haen wrth-lithr ar y gornel ger mynedfa'r pentref.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai
1af yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**